Hysbysiad Preifatrwydd Cwsmeriaid

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Cwsmeriaid hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am:

- **Y data personol fyddwn yn ei gasglu**
- **Sut byddwn yn defnyddio data personol**
- **Eich hawliau chi o ran eich data personol**
- **Eich hawliau chi gyda'ch data personol**

Cartrefi Conwy

CYNNWYS

1. Cyflwyniad 2

2. Seiliau a dibenion cyfreithlon ar gyfer prosesu data personol 2

3. Data personol pwy fyddwn ni'n ei drin? 3

4. Pa fathau o ddata personol fyddwn ni'n ei drin? 4

5. O le byddwn ni'n cael data personol? 4

6. Sut byddwn ni'n trin data personol 5

7. Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu gwybodaeth bersonol? 5

8. Am faint o amser byddwn ni'n dal data personol? 6

9. Hawliau unigol 7

9.1 Hawl i gael eich hysbysu 7

9.2 Hawl mynediad 7

9.3 Hawl i gywiro diffyg 7

9.4 Hawl i ddileu 7

9.5 Hawl i gyfyngu ar brosesu 8

9.6 Hawl i symud data 8

9.7 Hawl i wrthwynebu 8

9.8 Hawl i dynnu cydsyniad yn ôl 8

9.9 Hawliau o ran gwneud penderfyniadau yn awtomatig 8

10. Monitro 8

11. Cysylltu â ni 8

12. Cysylltu â'r comisiynydd gwybodaeth 9

ATODIAD A 10

1. Cyflwyniad

Mae Cartrefi Conwy yn 'Landlord Cymdeithasol Cofrestredig' sy'n berchen ac yn rheoli dros 4,000 eiddo ym mhob rhan o Ogledd Cymru. Ein prif amcan busnes ni yw darparu a rheoli tai a gwasanaethau perthnasol i gefnogi pobl sydd mewn angen. Wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny, bydd angen i Gartrefi Conwy gael, cadw a phrosesu rywfaint o wybodaeth bersonol am y bobl byddwn ni'n darparu gwasanaethau iddynt neu'n gweithio gyda hwy (eu data personol).

Yn y Deyrnas Unedig, mae defnyddio a datgelu data personol yn cael ei reoli gan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig a Deddf Diogelu Data y Deyrnas Unedig 2018. Cartrefi Conwy yw'r Rheolydd Data, ac Ysgrifennydd Cwmni Cartrefi Conwy yw'r cynrychiolydd sydd wedi'u cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer unigolion a gyda'r Swyddfa honno ar faterion yn ymwneud â phreifatrwydd data. Bydd Ysgrifennydd y Cwmni'n hysbysu a chynghori cydweithwyr ar oblygiadau diogelu data ac yn monitro cydymffurfiaeth fewnol. Trwy hynny bydd yn cynorthwyo i sicrhau ein bod ni'n trin yr holl ddata personol yn unol gyda chyfreithiau Diogelu Data'r Deyrnas Unedig.

Ein nod yw bod yn dryloyw am ba ddata fyddwn yn ei gasglu amdanoch chi a sut byddwn yn ei ddefnyddio. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Cwsmeriaid hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y canlynol:

- sut byddwn yn defnyddio eich data
- pa ddata personol fyddwn yn ei gasglu
- sut byddwn yn sicrhau gwarchod eich preifatrwydd
- eich hawliau cyfreithiol o ran eich data personol

Mae'n flaenoriaeth gan Cartrefi Conwy ein bod ni'n cadw eich data'n ddiogel, ac mae gennym ymrwymiad i barchu eich hawliau i breifatrwydd. Byddwn yn sicrhau ein bod ni a'r rhai sy'n gweithio gyda ni yn prosesu eich data personol yn unol gyda'n diddordebau cyfreithlon yn unig, ac rydym yn addo trin eich data yn deg ac yn gyfreithlon trwy gydol yr amser.

2. Seiliau a dibenion cyfreithlon ar gyfer prosesu data personol

Yn gyffredinol, bydd Cartrefi Conwy yn prosesu data personol:

- er mwyn i ni allu ateb rhwymedigaeth gyfreithiol a chydymffurfio gyda'r gyfraith
- mewn perthynas â chyswllt sydd gennym gydag unigolyn, neu am fod rhaid i ni gymryd camau penodol cyn ymuno mewn contract
- er mwyn gweithredu ein diddordebau cyfreithlon neu ddiddordebau trydydd parti mewn perthynas â'n gweithgareddau busnes
- er mwyn diogelu bywyd rhywun (diddordeb hanfodol)
- er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol, a bod gan y dasg neu swyddogaeth sail eglur mewn cyfraith, er

enghraifft mewn perthynas â'n rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

Y rhan fwyaf o'r amser, ni fydd angen i chi gydsynio i ni brosesu eich data personol gan y byddwn yn ei ddefnyddio i ateb ein rhwymedigaethau ac yn defnyddio ein hawliau fel sydd wedi'i restru uchod. O ran y materion hyn, mae dyletswydd arnoch chi i ddarparu'r data personol y byddwn ni ei angen. Gallai methu â gwneud hynny effeithio ar sut gallwn eich cefnogi chi gyda'ch anghenion tai, ac a allwn ddarparu gwasanaethau i chi neu beidio.

Efallai y byddwn yn prosesu eich data personol i'r dibenion sydd yn **Atodiad A**

O dan rai amgylchiadau cyfyngedig, efallai byddwn yn gofyn am eich cydsyniad penodol i brosesu eich gwybodaeth. Pan fydd angen cydsyniad penodol byddwn yn egluro pam ein bod ni'n gofyn am hynny ac, os byddwch wedi cydsynio, beth yw'r broses i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl.

3. Data personol pwy fyddwn ni'n ei drin?

Byddwn yn prosesu data personol yn unig lle mae rheswm da dros wneud hynny, er mwyn i ni fedru gwneud ein gwaith fel landlord cymdeithasol ac at y dibenion sydd wedi'u disgrifio'n fras yn Adran 2.

Efallai y byddwn yn prosesu data'n ymwneud ag amrywiaeth eang o unigolion, yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- Ein cyflogeion ni, yn cynnwys eu teulu a chysylltiadau dynodedig eraill, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth, dros dro ac achlysurol
- Tenantiaid, eu gofalwyr, teulu, a chysylltiadau dynodedig eraill
- Ymgeiswyr am lefydd byw, eu teuluoedd, a chysylltiadau dynodedig eraill
- Ceiswyr lloches
- Teithwyr
- Aelodau bwrdd a phwyllgor a chyfranddalwyr
- Cysylltiadau busnes a'u cyflogeion neu eu cynrychiolwyr
- Landlordiaid
- Cyflogeion awdurdod lleol
- Swyddogion gwasanaeth prawf
- Gweithwyr cymdeithasol
- Swyddogion asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith a gwasanaethu brys
- Darparwyr cyngor ysbrydol a lles
- Ymgynghorwyr a darparwyr cyngor proffesiynol
- Rhai sy'n ymateb i arolygon

- Troseddwyr a rhai dan amheuaeth o fod yn droseddwyr
- Rhai sy'n cyflwyno cwynion, yn gwneud ymholiadau a thystion
- Cyflenwyr a darparwyr gwasanaeth, contractwyr hunan gyflogedig
- Pobl sydd â'u delweddau mewn ffotograffau, fideo, ffilm a theledu cylch cyfyng

4. Pa fathau o ddata personol fyddwn ni'n ei drin?

Byddwn yn trin data personol yn ungi sy'n berthnasol i'n gwaith i gyflawni'r dibenion yn Adran 2 uchod. Efallai y byddwn yn prosesu data personol yn ymwneud â neu'n cynnwys y pwyntiau a ganlyn:

- manylion personol fel enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, dyddiad geni, dewis iaith
- manylion ariannol
- manylion addysg a chyflogaeth
- ffordd o fyw, ymddygiad ac amgylchiadau cymdeithasol
- categorïau arbennig o ddata sy'n ymwneud â'ch ymddangosiad personol, iechyd, lles a diogelwch. Gall y rhain gynnwys cyflyrau meddygol, hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol, tueddfryd rhywiol a barn wleidyddol, collfarnau troseddol a throseddau
- nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd neu y gofynnwyd amdanynt
- manylion am gyflenwyr
- talu clod, pryderon, cwynion, barn am wasanaethau a gafwyd
- delweddau gweledol a recordiadau llais mewn amrediad o wahanol fformatau (yn cynnwys er enghraifft ffotograffau, ffilm, cyfryngau digidol, teledu cylch cyfyng, ffôn, cyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd rhithiol).

5. O le byddwn ni'n cael data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion sydd wedi'u disgrifio yn adran 2 uchod, efallai y byddwn yn cael data personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- chi yn bersonol (fel testun y data)
- eich cyflogwyr presennol, cynharach neu ddarpar gyflogwyr, a chydweithwyr
- teulu, gofalwyr, pobl byddwch yn cysylltu â hwy, a chynrychiolwyr y person rydym ni'n prosesu eu data personol
- addysgwyr a chyrff arholi
- cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau
- cyrff ariannol a darparwyr cyngor ariannol personol
- adrannau o lywodraeth leol a chanolog
- cyrff sy'n cynnal arolygon ac ymchwil
- cymdeithasau tai eraill neu ymddiriedolaethau a landlordiaid eraill
- undebau llafur a chymdeithasau
- ymarferwyr iechyd, awdurdodau iechyd, cyrff iechyd a lles cymdeithasol

- pobl sy'n ymholi a rhai sy'n cyflwyno cwynion
- yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith, asiantaethau diogelwch
- cyrff proffesiynol, darparwyr cyngor proffesiynol ac ymgynghorwyr
- elusennau a chyrff gwirfoddol
- gwasanaethau prawf, llysoedd a thribiwnlysoedd
- asiantaethau cyflogaeth a recriwtio
- asiantaethau gwirio credyd a chasglu dyledion
- ein systemau recordio ffôn, cyfryngau digidol a theledu cylch cyfyng ni ein hunain
- gohebiaeth (trwy lythyr ac ebost)
- gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus (fel erthyglau o bapurau newydd, cylchgronau, gwefannau, cyhoeddusrwydd busnes, safleoedd cyfryngau cymdeithasol).

6. Sut byddwn ni'n trin data personol

Mae gennym brosesau i wneud yn sicr bod data personol yn cael ei drin mewn ffyrdd diogel a chyfreithlon. Mae'r rheiny'n cynnwys y wybodaeth y byddwn yn ei thrin yn fewnol yn ogystal â sut byddwn ni'n rhannu gwybodaeth gyda chyrff perthnasol eraill.

Wrth drin data personol, byddwn:

- yn dweud wrthych pam ein bod angen eich gwybodaeth ac i beth gwnawn ei defnyddio
- ddim ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer beth rydym wedi dweud rydym am ei defnyddio
- ddim ond yn cadw beth fyddwn ei hangen i ddarparu gwasanaethau i chi
- cadw ddim ond y wybodaeth bersonol rydym ni ei hangen mewn perthynas â rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a chytundebol
- bod â'r nod o sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol chi'n gywir ac yn gyfredol
- dileu neu ddinistrio gwybodaeth bersonol amdanoch chi pan na fyddwn ei hangen mwyach, gan ddefnyddio ein gweithdrefnau ar gyfer cadw a dileu gwybodaeth
- nid yw Cartrefi Conwy'n dibynnu ar drefn benderfynu awtomatig ar sail data personol.

7. Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu gwybodaeth bersonol?

Er mwyn cyflawni ein diddordebau busnes cyfreithlon, efallai y byddwn yn datgelu data personol i unigolion a chyrff sydd yn y categorïau a ganlyn:

- Cymdeithasau Tai eraill a chyrff elusennol sy'n darparu gwasanaethau tai neu wasanaethau cefnogi i bobl mewn angen
- landlordiaid preifat ac asiantaethau sy'n rheoli ar eu rhan

- Awdurdodau Lleol (yn bennaf i gefnogi'r bobl sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref neu sy'n ddigartref, a hawlwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau sydd wedi'u gweinyddu gan yr awdurdod lleol)
- darparwyr ac asiantaethau Gofal, Lles ac Iechyd
- cwmnïau cyfleustodau (fel cyflenwyr nwy, trydan a dŵr)
- Gwasanaethau Brys (Tân ac Achub, Heddlu, Ambiwlans)
- yr Heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith
- ein his-gwmni, sef Creu Menter, pan fydd yn gweithio ar ein rhan
- cyrff partner, asiantaethau, contractwyr, cyflenwyr, a darparwyr cyngor arbenigol, sy'n gweithio gyda ni neu ar ein rhan fel unigolion neu gyrff.

Efallai y byddwn hefyd yn datgelu data personol i gyrff eraill neu i unigolion, os byddwn yn credu bod perygl i unigolion gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio.

Byddwn hefyd yn datgelu data personol i gyrff eraill, awdurdodau neu unigolion eraill pan fydd yn ofynnol gwneud hynny yn ôl, neu o dan, unrhyw ddeddf o ddeddfwriaeth, gan unrhyw reol gyfreithiol, a gan orchymyn llys. Gall hyn gynnwys datgelu i'r Asiantaeth Cynnal Plant, y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol, y Swyddfa Gartref ac i'r Llysoedd.

Pan fydd cyrff, awdurdodau neu unigolion y gallwn fod angen datgelu gwybodaeth bersonol iddynt yn prosesu'r data hwnnw mewn tiriogaethau y tu allan i'r Deyrnas Unedig, byddwn yn cymryd camau priodol i sicrhau ei fod wedi'i ddiogelu'n ddigonol fel sy'n ofynnol gan gyfraith Diogelu Data.

Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan yn un o'n gweithgareddau ar-lein a'n bod yn defnyddio Zoom, bydd angen i chi gytuno i gael y gwasanaeth Zoom. Wrth i chi defnyddio eu gwasanaeth nhw, Zoom fydd y rheolydd data. Gallwch weld gwybodaeth preifatrwydd zoom yma yn: https://zoom.us/privacy. Bydd hefyd angen i chi gytuno i dderbyn eu telerau ac amodau hwy https://zoom.us/terms. Dylech fod yn ymwybodol bod Zoom yn prosesu gwybodaeth yn Unol Daleithiau'r America.

8. Am faint o amser byddwn ni'n dal data personol?

Byddwn yn cadw data personol yn unig am y cyfnod o amser y byddwn ei angen.

Os rhoddir gwybodaeth bersonol ar y system Rheoli Tai, ac ar gofnodion eraill sy'n cynnwys data personol yn ymwneud yn fwy cyffredinol gyda gweithgareddau Cartrefi Conwy, fel arfer ni fydd yn cael ei gadw am fwy na 7 mlynedd ar ôl y canlynol:

- y dyddiad pan gynigiwyd tenantiaeth neu y cyhoeddwyd llythyr gwrthod mewn perthynas â chais am dŷ
- dyddiad terfynu tenantiaeth neu brydles
- diwedd unrhyw drefniant cytundebol arall gyda chi
- bod trafodion ariannol wedi cael eu prosesu

Gall y cyfnodau cadw hyn gael eu hamrywio o bryd i'w gilydd, yn ôl anghenion y busnes neu i gydymffurfio gydag amserlenni eraill yn unol â gofynion statudol neu reolaethol. Pan fyddwn yn dinistrio neu ddileu gwybodaeth, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel.

9. Hawliau unigol

Mae gennych wahanol hawliau o ran y data personol rydym yn ei ddal amdanoch – gallwch weld mwy o fanylion o hynny isod:

- Hawl i gael eich hysbysu
- Hawl mynediad
- Hawl i gywiro diffyg
- Hawl i ddileu
- Hawl i gyfyngu ar brosesu
- Hawl i symud data
- Hawl i wrthwynebu prosesu
- Hawl i dynnu cydsyniad yn ôl
- Hawliau o ran gwneud penderfyniadau yn awtomatig a phroffilio

9.1 Hawl i gael eich hysbysu

Mae gennych chi'r hawl i gael eich hysbysu am gasglu a defnyddio eich data personol. Gellir ystyried yr Hysbysiad Preifatrwydd Cwsmeriaid hwn yn 'Hysbysiad Preifatrwydd' generig ar gyfer tenantiaid a chwsmeriaid eraill Cartrefi Conwy. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan www.cartreficonwy.org ac mewn print fel dewis arall, i hwyluso defnyddio a chyfathrebu dan amgylchiadau eraill. O bryd i'w gilydd, byddwn yn cyhoeddi rhybuddion preifatrwydd ychwanegol o ran gweithgareddau penodol eraill, a chyhoeddi'r rheiny fel sy'n briodol, er enghraifft ar ffurflen, fel troednodyn ar ebost, neu ar arwyddion teledu cylch cyfyng.

9.2 Hawl mynediad

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich data personol; bydd hyn fel arfer yn cael ei alw'n fynediad at ddata gan y testun. Gallwch wneud cais, ar lafar neu mewn ysgrifen, am fynediad at ddata gan y testun a bydd gennym un mis i ymateb i'r cais.

9.3 Hawl i gywiro diffyg

Mae gennych chi'r hawl i gael cywiro diffyg mewn data personol, neu i gael cwblhau'r data os yw'n anghyflawn. Gallwch wneud cais ar lafar neu mewn ysgrifen i gael cywiro diffyg, a bydd gennym un mis calendr i ymateb i'r cais.

9.4 Hawl i ddileu

Mae gennych chi'r hawl i gael dileu eich data personol, ond nid yw hwnnw'n hawl llwyr a dim ond o dan rai amgylchiadau mae'n gymwys. Mae'r hawl i ddileu hefyd yn cael ei alw'n 'hawl i gael eich anghofio'. Gallwch wneud cais am ddileu ar lafar neu mewn ysgrifen, a bydd gennym un mis i ymateb i gais.

9.5 Hawl i gyfyngu ar brosesu

Mae gennych chi'r hawl i ofyn am gyfyngu neu atal eich data personol, ond nid yw hwn yn hawl llwyr a dim ond dan rai amgylchiadau mae'n gymwys. Pan fydd cyfyngu ar brosesu, byddwn ni'n cael storio'r data personol ond ddim ei ddefnyddio. Gallwch wneud cais am gyfyngu ar lafar neu mewn ysgrifen, a bydd gennym un mis i ymateb i'r cais.

9.6 Hawl i symud data

O dan yr hawl i symud data, gallwch gael copi o'ch data personol a/neu fod eich data personol yn cael ei symud oddi wrthym ni, fel y rheolydd data, i reolydd data arall. Mae'r hawl i symud data yn gymwys ddim ond ar gyfer data rydych chi wedi'i ddarparu i ni, lle mae'r prosesu'n digwydd ar sail cydsyniad neu gontract gyda chi.

9.7 Hawl i wrthwynebu

Yn amodol ar rai eithriadau, mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol o dan rai amgylchiadau. Gallwch wneud cais mewn ysgrifen neu ar lafar, a bydd gennym ni un mis calendr i ymateb. Mae hyn yn cynnwys defnyddio eich data personol ar gyfer marchnata uniongyrchol, ac yn cynnwys cyfathrebu mewn unrhyw ffordd (e.e. post, ebost, ffôn, canfasio o ddrws i ddrws) gydag unrhyw ddeunydd hysbysebu neu farchnata sydd wedi'i gyfeirio at unigolion penodol.

9.8 Hawl i dynnu cydsyniad yn ôl

Lle mae rhywun wedi gofyn i chi gydsynio'n benodol i brosesu eich data personol ac mai'r cydsyniad hwnnw yw'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.

9.9 Hawliau o ran gwneud penderfyniadau yn awtomatig

Yn amodol ar rai eithriadau, mae gennych chi'r hawl i'w gwneud yn ofynnol ein bod ni'n sicrhau nad oes unrhyw benderfyniad fyddai'n effeithio'n sylweddol arnoch chi yn cael ei wneud gennym ni neu ar ein rhan trwy ddefnyddio ddim ond meddalwedd penderfynu awtomatig. Os bydd elfen o benderfynu gan bobl yn rhan o'r broses benderfynu, ni fydd gennych wedyn yr hawl hwn.

10. Monitro

Gallwn fonitro neu recordio a chadw galwadau ffôn neu fideo, negeseuon testun, e-byst, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd rhithiol a chyfathrebiadau electronig eraill a gafwyd neu a yrrwyd, er mwyn cynorthwyo'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 2 uchod. Ni fyddwn yn rhoi 'rhybudd prosesu teg' safonol wedi'i recordio ymlaen llaw ar bob llinell ffôn, oherwydd yr anghyfleustod y gallai hynny ei achosi trwy arwain at oedi wrth ymateb i'r alwad.

11. Cysylltu â ni

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am ansawdd eich data personol (cywirdeb, pa mor berthnasol, peidio bod yn ormodol ayyb.) neu'r ffordd y mae eich data

personol yn cael ei drin gan Cartrefi Conwy, rydych yn cael eich annog i sôn wrthym am y materion hynny. Gallwch gysylltu â ni yma:

Ysgrifennydd y Cwmni, Cartrefi Conwy,
Morfa Gele, Parc Busnes Gogledd Cymru,
Cae Eithin, Abergele LL22 8LJ
Ffôn: 0300 124 0040 Ebost: enquiries@cartreficonwy.org

12. Cysylltu â'r comisiynydd gwybodaeth

Y Comisiynydd Gwybodaeth yw'r rheoleiddiwr annibynnol sy'n gyfrifol am orfodi cyfraith Diogelu Data yn y Deyrnas Unedig. Mae swyddfa'r Comisiynydd yng Nghaerdydd yn bwynt cyswllt lleol i aelodau o'r cyhoedd a chyrff sydd â'u canolfan yng Nghymru.

Gall unrhyw unigolyn ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth wneud asesiad os byddant yn credu bod y ffordd rydym ni wedi trin data personol yn cael/wedi cael effaith niweidiol arnynt. Dylid gwneud y ceisiadau hynny'n syth at y Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae manylion sut i gysylltu â hwy i'w gweld isod.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru: 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH Ffôn: 016 2554 5297 Ebost: wales@ico.org.uk

neu, fel dewis arall, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF Ffôn: 0303 123 1113 Gwefan: www.ico.gov.uk

ATODIAD A

Diben prosesu eich data personol	Sail Gyfreithiol ar gyfer prosesu
Er mwyn cydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol	Diddordeb cyfreithlon mewn bod yn landlord cymdeithasol ac wedi'i reoleiddio yn hynny gan Lywodraeth Cymru
Gosod, rhentu a phrydlesu eiddo	Diddordeb cyfreithlon mewn bod yn landlord cymdeithasol ac ateb gofynion neu orfodi cytundebau contract gyda thenantiaid
Gweinyddu rhestrau aros am dai	Diddordebau cyfreithlon pobl sy'n chwilio am lefydd i fyw ac rhai'r gwahanol gyrff sydd â'r gwaith o ddarparu tai cymdeithasol
Darparu cyngor a chefnogaeth tai, a gwasanaethau lles, cyngor a chefnogaeth yn gysylltiedig â hynny	Diddordeb cyfreithlon pobl sy'n chwilio am gefnogaeth a'r gwahanol gyrff gyda'r gwaith o ddarparu'r fath gefnogaeth
Ymchwilio a deall ymddygiad, gweithgareddau, dewisiadau ac anghenion ein tenantiaid a phreswylwyr eraill yn ein cymunedau lleol ni a'r ardaloedd lle rydym yn gweithredu	Ein diddordebau cyfreithlon o ran cynllunio ein gwasanaethau a'n hadnoddau
Atal, ymchwilio a chanfod troseddau, twyll neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac erlyn troseddwyr, yn cynnwys gweithio gydag asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith	Ein diddordebau cyfreithlon ni, rhai ein tenantiaid ac asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith, a'r budd cyhoeddus sylweddol o gynnal cyfraith a threfn
Trin cysylltiadau, ymholiadau, cwynion neu anghydfod unigol	Ein diddordeb cyfreithlon ni ac eraill mewn trin cwynion ayyb.

Diben prosesu eich data personol	Sail Gyfreithiol ar gyfer prosesu
Rheoli hawliadau yswiriant gan denantiaid ac aelodau o'r cyhoedd	Ein diddordeb cyfreithlon ni o ran rhwymedigaethau statudol a chontract, a rheoli risgiau'n ymwneud â hynny
Trin yn effeithiol unrhyw hawliadau cyfreithiol neu gamau i orfodi rheoliadau yn erbyn Cartrefi Conwy	Ein diddordeb cyfreithlon o ran atal a chanfod troseddau a gweithredu ein rhwymedigaethau cytundebol a chyfreithiol
Diogelu Cartrefi Conwy, ei gyflogeion a'i denantiaid, trwy gymryd camau cyfreithiol priodol yn erbyn trydydd partïon sydd wedi cyflawni gweithredoedd troseddol neu sydd wedi torri eu rhwymedigaethau cyfreithiol i Gartrefi Conwy	Ein diddordeb cyfreithlon o ran atal a chanfod troseddau a gweithredu ein rhwymedigaethau cytundebol a chyfreithiol
Gweinyddu grantiau tai ac eiddo	Ein diddordeb cyfreithiol o ran ateb telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth y grantiau hynny
Cynllunio ar gyfer a gwneud gwaith cynnal, trwsio ac ailwampio ar eiddo rydym ni'n berchennog arnynt neu dan gontract i weithio arnynt i eraill	Ein diddordeb cyfreithlon i ateb ein hymrwymiadau statudol fel landlord cymdeithasol a chytundebau contract gyda thenantiaid ac eraill
Cael meddiant ar unrhyw dir ac eiddo, ei ddatblygu, ei werthu neu ei drosglwyddo	Ein diddordeb cyfreithiol mewn gweithredu ein hamcanion fel landlord cymdeithasol ac ateb cytundebau contract, rhwymedigaethau statudol a rheoliadol
Hyrwyddo, hysbysebu a marchnata ein gwaith	Ein diddordeb cyfreithlon o ddilyn ein hamcanion fel landlord cymdeithasol
Rheoli trafodion corfforaethol, yn cynnwys gwerthu neu drosglwyddo unrhyw rannau o'n busnes i drydydd partïon, cael meddiant ar fusnesau newydd, ymuno mewn cydsoddiadau neu ymgymryd â gweithgaredd ailstrwythuro corfforaethol	Ein diddordeb cyfreithlon o ddilyn ein hamcanion fel landlord cymdeithasol ac amddiffyn ein diddordebau busnes

Diben prosesu eich data personol	Sail Gyfreithiol ar gyfer prosesu
Cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n berthnasol ac wedi'u teilwra i unigolion	Ein diddordeb cyfreithlon mewn dilyn ein hamcanion fel landlord cymdeithasol ac ateb rhwymedigaethau rheoliadol
O dro i dro byddwn yn cyfathrebu'n rhithiol trwy gyfrwng cyfweliad, cyfarfod, gweithdy, gweithgaredd cymdeithasol neu grŵp ffocws. Efallai byddwn yn recordio (yn ddigidol, ar ffilm neu sain) y digwyddiadau hyn ac unrhyw gyfraniadau a wneir gan y rhai sy'n bresennol. Rydym yn parhau i fod y rheolydd data ar gyfer deunydd wedi'i recordio ac efallai y byddwn yn ei ddefnyddio mewn perthynas â phwnc y digwyddiad ac at y dibenion a restrir uchod	Ein diddordeb cyfreithlon mewn dilyn ein hamcanion fel landlord cymdeithasol ac amddiffyn ein diddordebau busnes